Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

National Assembly for Wales
Health, Social Care and Sport Committee

Vaughan Gething AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

3 Gorffennaf 2018

Annwyl Vaughan

Ysgrifennaf atoch yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar 27 Mehefin 2018, lle rhoddwyd tystiolaeth gennych mewn perthynas ag ymchwiliad y Pwyllgor i atal hunanladdiad.

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth hon, dywedasoch fod Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed i fod i gyfarfod ar 28 Mehefin 2018. Fel yr amlinellwyd yn eich cyflwyniad ysgrifenedig, mae'r grŵp hwn yn dod â rhanddeiliaid ynghyd o'r trydydd sector, Llywodraeth Cymru, yr heddlu, y GIG, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac arbenigwyr mewn atal hunanladdiad. Er mwyn llywio ymchwiliad y Pwyllgor ymhellach cyn unrhyw adroddiad, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn y cyfarfod hwn. Byddem yn croesawu'n benodol wybodaeth mewn perthynas â'r posibilrwydd o gyflwyno fframwaith hyfforddi ar gyfer atal hunanladdiad / hunan-niwed, a datblygu llwybr ôl-ymyrraeth Cymru gyfan.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Seneddlechyd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/Seneddlechyd
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddHealth@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddHealth
0300 200 6565